**CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 5**

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@senedd.cymru

26 Chwefror 2021

Annwyl Lynne,

Diolch am lythyr y Pwyllgor, dyddiedig 19 Chwefror, ynghylch pryderon Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector am y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a gweithredu Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn fwy cyffredinol.

Rwy'n ymwybodol dros ben o'r heriau y mae ein dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig hwn, ac mae'r rhain wedi ei gwneud yn fwy amlwg nag erioed mor bwysig yw sicrhau bod y system gymorth i blant a phobl ifanc ag ADY mor effeithiol â phosibl yn y dyfodol. Dyma un o'r prif resymau pam rwyf wedi gofalu bod diwygio'r system ADY wedi parhau i fod yn flaenoriaeth drwy gydol y pandemig.

Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth a'r Cod ADY. Gallaf gadarnhau bod safbwyntiau'r Cynghrair a safbwyntiau ymatebwyr eraill, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod ADY drafft, wedi'u hystyried yn ofalus wrth baratoi'r Cod ADY.

Hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor bod y newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r Cod ADY yn adlewyrchu pryderon Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (fel yr amlinellir yn eu llythyr) mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 ag ADY, a'r gofynion o ran sgiliau Cydlynwyr ADY. Rwyf ar ddeall bod fy swyddogion wrthi'n trafod pryderon ynghylch addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a hawl i gael CDU gyda'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, er mwyn egluro'r sefyllfa y mae pobl

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


wedi'i deall mewn ffyrdd gwahanol, a'r disgwyl yw y bydd yna ganlyniad boddhaol yn fuan.

Bydd y canllawiau arfer da a gaiff eu datblygu i gyd-fynd â'r Cod ADY yn rhoi sylw i'r materion eraill a godwyd gan Gynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector, sy'n cynnwys darparu gwybodaeth a chyngor am yrfaoedd, a llwybrau ADY ôl-16. Bydd y canllawiau yn helpu i ofalu bod y system ADY newydd yn cael ei gweithredu fel y'i bwriadwyd, a byddwn yn cydweithio'n agos â'r Gynghrair ac â rhanddeiliaid perthnasol eraill wrth ddatblygu'r canllawiau hyn. Os bydd angen unrhyw fanylion peIlach arnoch o ran y pryderon a godwyd yn y llythyr, bydd fy swyddogion yn gallu rhoi esboniad a sicrwydd pellach ichi pan fyddwch yn cwrdd â nhw am gyfarfod briffio technegol cyn trafodaeth y cyfarfod llawn ddiwedd Mawrth.

Yn olaf, gallaf gadarnhau fy mod eisoes wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd y camau i ddiwygio'r system ADY. Mae hyn wedi'i gynnwys yn swydd-ddisgrifiadau Arweinwyr Trawsnewid y System ADY a fydd yn monitro ac yn adolygu'r trefniadau gweithredu yn ystod y cyfnod pontio. Yn ogystal, mae yna gynlluniau ar waith ac ymrwymiad i gynnal adolygiad ôl-weithredol o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 bum mlynedd ar ôl ei chychwyn. Bydd hyn yn asesu i ba raddau y mae Deddf 2018 wedi cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ag ADY yng Nghymru.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch y materion a godwyd gan Gynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education